# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2022**

**TGAU**
**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4**
**3020U40-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2022. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**CYNLLUNIAU MARCIO TGAU**

**CYMRAEG AIL IAITH - UNED 4**

**HAF 2022**

## Adran A

Mae Ysgol Gwalia yn annog ei disgyblion i wneud mwy o weithgareddau allgyrsiol ac i ymuno â mwy o glybiau.

*Ysgol Gwalia is encouraging its students to do more extracurricular activities and to join more clubs.*

**A1. Darllenwch yr hysbyseb ar dudalennau 2 a 3. Yna cwblhewch y tasgau.**
*Read the advert on pages 2 and 3. Then complete the tasks.* **[10]**

# Clwb Urdd Ysgol Gwalia

**Dewch i Glwb Urdd Ysgol Gwalia; mae'n llawer o hwyl!**

**Manylion:**

Blwyddyn 7 - 9 dydd Llun o 3:00yp tan 4:00yp

Blwyddyn 10 - 11 dydd Mercher o 3:00yp tan 4:00yp

Pob cyfarfod yn y llyfrgell

Pris aelodaeth yn £8




(i) Tanlinellwch (underline) yr atebion cywir [3]

(a) Ble mae'r clwb yn cyfarfod?

**yn y llyfrgell** yn y gampfa yn yr ystafell gyffredin

(b) Faint mae aelodaeth yn ei gostio?

pum punt saith bunt **wyth bunt**

(c) Pryd mae'r clwb ymlaen i flwyddyn 10?

cyn ysgol amser cinio **ar ôl ysgol**

# Clwb Urdd Ysgol Gwalia




**Mwy o fanylion:**

Mae amserlen o weithgareddau ar wefan yr ysgol ac yn y dosbarthiadau Cymraeg. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau fel gwneud gwaith celf, siarad efo sêr fel Mr Phormula a George North, dawnsio, coginio a llawer mwy.

Dewch i'r clwb i wneud ffrindiau newydd ac i ymarfer a gwella eich sgiliau Cymraeg.

Am fwy o wybodaeth, siaradwch gyda eich athrawon Cymraeg.

(ii) Mae'r hysbyseb uchod yn sôn am wahanol weithgareddau; dewiswch 3 llun addas. [3]
*The above advert discusses different activities; choose 3 suitable pictures.*

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| ✓ | | | ✓ | ✓ |

(iii) Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (*underline*) **un** ateb. [2]

- **Gallwch chi wneud ffrindiau newydd yn y clwb.**
- Allwch chi ddim gwneud gwaith celf yn y clwb.
- Gallwch chi wneud gwaith cartref yn y clwb.

Pa un sy'n gywir? Tanlinellwch (underline) **un** ateb. [2]

- Mae angen gwisgo bathodyn i ddod i'r clwb.
- **Mae angen siarad Cymraeg yn y clwb.**
- Mae angen hoffi chwaraeon.

© WJEC CBAC Cyf.

**A2.** Rydych chi wedi ymaelodi â chlwb ffitrwydd. Ysgrifennwch neges at ffrind yn eu gwahodd nhw i'r clwb. Ysgrifennwch mewn brawddegau llawn.
*You have joined a fitness club. Write a message to a friend inviting them to the club. Write in full sentences.* [5 + ✓ = 5] = **[10]**

| Rhaid i chi gynnwys: | | *You must include:* | |
|---|---|---|---|
| (i) | diwrnod ac amser y clwb | *day and time the club is on* | [1] |
| (ii) | dweud ble mae'r clwb | *say where the club is* | [1] |
| (iii) | dweud beth allech chi wneud | *say what you could do* | [1] |
| (iv) | cwestiwn (i wahodd eich ffrind) | *a question (to invite your friend)* | [1] |
| (v) | brawddeg i berswadio eich ffrind i ymaelodi | *a sentence to persuade your friend to join* | [1] |

**Cynnwys [5] (atebion enghreifftiol)**

- ✓ Diwrnod neu amser – "Mae'r clwb ymlaen ar ddydd Gwener / Mae'r clwb ymlaen am bedwar o'r gloch." = 1 marc
- ✓ Ble? – "Mae'r clwb yn y gampfa." = 1 marc
- ✓ Gweithgareddau – "Gallech chi nofio yn y clwb." = 1 marc
- ✓ Cwestiwn - "Hoffet ti ymaelodi gyda fi??" = 1 marc (nid o reidrwydd i wahodd ffrind e.e. Wyt ti'n hoffi cadw'n heini?)
- ✓ Iaith berswâd – "Dewch i'r clwb!" – gan gynnwys cwestiwn = 1 marc

**Mynegiant [5]**

| | |
|---|---|
| **5 Marc** | Disgrifiad diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus. |
| **4 Marc** | Disgrifiad da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu da. |
| **3 Marc** | Disgrifiad syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, mynegi barn a rhesymu da. |
| **2 Farc** | Ymgais i greu paragraff yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol ac ymdrech i fynegi barn. |
| **1 Marc** | Brawddegau sylfaenol, pytiog heb strwythur amlwg. |

** Nid oes modd gwobrwyo marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys
** Rheswm **hyderus** = cynnwys berf neu idiom yn y frawddeg
** Rheswm hyderus = mae'n llawer o hwyl

**A3.** Yn yr haf, aeth disgyblion o wahanol ysgolion ar drip i Batagonia gyda'r Urdd. Yn ystod y daith, gofynwyd i'r disgyblion gadw dyddiadur.
*In the summer, students from different schools went on a trip to Patagonia with Yr Urdd. During the trip the students were asked to keep a diary.*

Darllenwch beth mae Bethany, Steffan ac Erin yn dweud am eu taith i Batagonia.
*Read what Bethany, Steffan and Erin say about their trip to Patagonia.* **[12]**



**Dydd Gwener 21 Hydref**
Maes Awyr Heathrow

**Bethany, 17 - Ysgol Maes Dafydd**
Teithio ar yr awyren o Heathrow i Buenos Aires – cyffrous iawn! Rydw i wrth fy modd yn hedfan ar awyren.

**Steffan, 16 - Ysgol Uwchradd Bodfari**
O mam bach, roedd yr awyren yn ofnadwy. Rydw i'n casáu mynd ar awyren. Roedd dyn yn mynd i'r toiled bob munud!

**Erin, 16 – Ysgol Bryn Coch**
Rydw i'n casáu hedfan ond cysgais i yr holl ffordd felly doedd dim ots.

**Dydd Mawrth 25 Hydref**
Coleg Camwy



**Bethany**
Wedi mwynhau heddiw. Siarad Cymraeg a Sbaeneg efo pobl ifanc yng Ngholeg Camwy. Roedd hi'n ddiddorol iawn siarad Cymraeg efo pobl sy ddim yn byw yng Nghymru.

**Steffan**
Dydw i ddim yn gallu siarad llawer o Gymraeg na Sbaeneg felly roedd heddiw yn sialens. Dydy pobl ifanc Patagonia ddim yn siarad llawer o Saesneg!

**Erin**
Rydw i'n siarad Sbaeneg yn rhugl ac wedi mwynhau siarad gyda ffrindiau newydd. Aethon ni i Gapel Bethel am baned a chacen – blasus iawn!



**Dydd Sadwrn 29 Hydref**
Penwythnos awyr agored

**Bethany**
Dydw i ddim yn hoffi cerdded a cherddais i lawer penwythnos yma. Rydw i wedi blino a dydw i ddim eisiau cysgu mewn pabell heno!

**Steffan**
Mae'r wlad yma yn anhygoel. Mae'r golygfeydd yn arbennig achos mae'r mynyddoedd yn fawr iawn!

**Erin**
Heb os, hoffwn i aros ym Mhatagonia. Dydw i ddim eisiau mynd adref! Rydw i'n gallu siarad Cymraeg a Sbaeneg bob dydd yma!

**Dydd Iau 3 Tachwedd**
Diwrnod olaf ym Mhatagonia



**Bethany**
Wedi mwynhau ond hoffwn i fynd adref i weld fy nheulu. Bwyd blasus iawn yn yr asado!

**Steffan**
Mynd adref yfory ond hoffwn i aros am wythnos arall. Wedi mwynhau cerdded mynyddoedd, bwyta bwydydd gwahanol a chwrdd â ffrindiau newydd ond eisiau mynd adref at Taff y ci!

**Erin**
Na, dydw i ddim eisiau mynd adref! Mae Cymru yn hyfryd ond mae'n well gyda fi Batagonia. Mae hi'n boeth ym Mhatagonia. Mae'n gas gyda fi law ac mae hi'n bwrw glaw drwy'r amser adref!

© WJEC CBAC Cyf.

(i) Ticiwch (✓) yr atebion cywir yn y grid [3]

| | | Bethany | Steffan | Erin |
|---|---|---|---|---|
| (i) | Pwy sy'n hoffi hedfan? | ✓ | | |
| (ii) | Pwy oedd yn hapus ar ôl gwneud ffrindiau newydd? | | ✓ | ✓ |
| (iii) | Pwy oedd yn teimlo'n flinedig ar ôl y gweithgareddau? | ✓ | | |

(ii) Ticiwch (✓) yr atebion cywir yn y grid. [4]

| | | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|---|
| (i) | Bethany ydy'r person hynaf. | ✓ | |
| (ii) | Mae Bethany, Steffan ac Erin yn siarad Cymraeg yn rhugl. | | ✓ |
| (iii) | Mae pawb yn meddwl bod y bwyd yn ofnadwy. | | ✓ |
| (iv) | Mae'r mwyafrif eisiau mynd adref. | | ✓ |

(iii) Yn eich barn chi pwy fwynheuodd y daith i Batagonia fwyaf? [1]

Ticiwch (✓) **un** ateb.

Un marc am ddewis **un** person

| Bethany | Steffan | Erin |
|---|---|---|

| Bethany | Steffan | Erin |
|---|---|---|
| 2 farc yr un am ateb cywir (uchafswm o 4 marc)<br>• Hoffi teithio (ar awyren)<br>• Hoffi hedfan ar awyren<br>• Mwynhau siarad Cymraeg/ Sbaeneg<br>• Diddorol siarad Cymraeg efo pobl sy ddim o Gymru<br>• Hoffi'r bwyd/ asado | 2 farc yr un am ateb cywir (uchafswm o 4 marc)<br>• Hoffi'r golygfeydd<br>• Hoffi'r mynyddoedd<br>• Eisiau aros wythnos arall<br>• Patagonia/ y wlad yn anhygoel<br>• Hoffi cerdded mynyddoedd<br>• Bwyta bwydydd gwahanol<br>• Cwrdd â ffrindiau newydd | 2 farc yr un am ateb cywir (uchafswm o 4 marc)<br>• Hoffi siarad (Sbaeneg) efo/gyda ffrindiau newydd<br>• Bwyd blasus<br>• Siarad Cymraeg/ Sbaeneg bob dydd<br>• Well ganddi hi Batagonia na Chymru<br>• Tywydd poeth<br>• Ddim yn hoffi'r glaw yng Nghymru<br>• Ddim eisiau mynd adref<br>• Wedi gwneud ffrindiau newydd<br>• Eisiau aros ym Mhatagonia yn fwy na Bethany a Steffan |

** Nid oes angen ateb mewn brawddegau llawn yn rhan (iii) (a) a (b) achos bod dim marciau mynegiant ar gael yma.

**A4.** Mae eich cyngor sir yn holi y bobl leol i weld beth ydy eu barn ar ddwyieithrwydd. Ysgrifennwch ymateb i'r gosodiad canlynol mewn brawddegau llawn.
"Mae bod yn ddwyieithog yn bwysig ac yn gallu helpu yn y dyfodol." [8 + ✓ = 7] = [15]

Rhaid i chi:

| | | |
|---|---|---|
| (i) | gytuno/anghytuno gyda'r gosodiad. | [1] |
| (ii) | trafod pa ieithoedd rydych chi'n gallu siarad/ dysgu yn yr ysgol | [1] |
| (iii) | dweud pryd siaradoch chi Gymraeg ddiwethaf | [1] |
| (iv) | trafod manteision ac anfanteision bod yn ddwyieithog | [2] |
| (v) | trafod sut mae eich ysgol yn hybu dwyieithrwydd | [3] |

*Your local council is asking the local people to see what is their opinion about bilingualism. Write a response to the following statement in full sentences.*
*"Being bilingual is important and can help in the future."*

*You must:*

| | | |
|---|---|---|
| *(i)* | *agree/disagree with the statement* | *[1]* |
| *(ii)* | *discuss which languages you can speak/ learn in school* | *[1]* |
| *(iii)* | *say when you spoke Welsh last* | *[1]* |
| *(iv)* | *discuss the advantages and disadvantages of being bilingual* | *[2]* |
| *(v)* | *discuss how your school promotes bilingualism* | *[3]* |

**Cynnwys [8]**

- ✓ Marc am gytuno neu anghytuno efo'r gosodiad **[uchafswm o 1]**
- ✓ Marc yr un am drafod ieithoedd maen nhw'n siarad/dysgu e.e Cymraeg a Saesneg **[uchafswm o 1]**
- ✓ Marc am pryd siaradoch Gymraeg ddiwethaf **[uchafswm o 1]**
- ✓ Marc yr un am bob mantais/ anfantais – cael swyddi, gwneud ffrindiau, anodd ayb **[uchafswm o 2]**
- ✓ Marc yr un am drafod dwyieithrwydd yn yr ysgol – helpu pobl siarad mewn gwersi, posteri ac arwyddion o gwmpas yr ysgol/ Dweud Bore da + yma bob dydd ayb **[uchafswm o 3]**

**Mynegiant [7]**

| | |
|---|---|
| **6-7 Marc** | • Defnyddio o leiaf 5 patrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Sillafu ac atalnodi cywir. |
| **4-5 Marc** | • Defnyddio o leiaf 3 phatrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Sillafu ac atalnodi da ar y cyfan. |
| **2-3 Marc** | • Defnyddio o leiaf 2 batrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn eithaf cywir.<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **1 Marc** | • Defnyddio o leiaf 1 patrwm brawddegol / cwestiwn gwahanol.<br>• Defnydd ansicr o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol.<br>• Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi. |

** Nid oes modd gwobrwyo'r marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys.
** Os mai 4 patrwm brawddegol sydd, dim ond 5 marc gellir ei wobrwyo.

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B**

**B5.** Mae eich aelod cynulliad wedi ysgrifennu e-bost atoch chi yn poeni bod dim digon yn cael ei wneud gan bobl ifanc i ofalu am yr amgylchedd. Darllenwch yr e-bost ac atebwch y cwestiynau ar dudalen 11.
*Your Assembly Member has written an email to you expressing her concern that young people aren't doing enough to care for the environment. Read the email and answer the questions on page 11.* **[11]**

Annwyl Syr / Fadam,

Rydw i'n ysgrifennu atoch chi achos dydy pobl ifanc ddim yn gwneud digon i ofalu am yr amgylchedd.

Rydyn ni'n byw mewn tref ble mae pobl ifanc yn treulio amser mewn gangiau yn taflu sbwriel ar y strydoedd, yn gwneud graffiti a fandaliaeth. Mae'r Heddlu yn gweithio'n galed i daclo'r graffiti a'r fandaliaeth ond hoffwn i gael syniadau gan bobl ifanc yr ardal ar sut allen ni daclo y broblem efo sbwriel.

Dros y dair blynedd ddiwethaf mae'r cyngor wedi gwario hanner miliwn o bunnoedd yn y dref ar wella cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu. Mae mwy o finiau yma ac mae gan bob tŷ finiau ailgylchu er mwyn ailgylchu plastig, tuniau, papur, cardfwrdd a gwydr. Hefyd, mae grant ar gael i bobl allu insiwleiddio eu cartrefi er mwyn arbed arian ac egni.

Mae siopau'r dref yn helpu hefyd. Mae'r archfarchnadoedd yn codi deg ceiniog am fagiau am oes ac yn perswadio cwsmeriaid i ailddefnyddio hen fagiau plastig.

Hoffwn i weld ysgolion yr ardal yn gwneud mwy i wella'r amgylchedd. Ar hyn o bryd mae llawer o'r ysgolion cynradd yn rhan o broject ecogyfeillgar Eco'Sgolion. Pwrpas y project ydy helpu disgyblion i ddeall mwy am sut i ailgylchu ac ailddefnyddio pethau bob dydd. Hefyd mae'n eu dysgu nhw am sut i arbed egni drwy ddiffodd golau wrth adael ystafell a sut i arbed dŵr drwy gael cawod yn lle bath ac i droi y tap dŵr i ffwrdd wrth frwsio eu dannedd.

Yn anffodus, dydy'r ysgolion uwchradd ddim yn gwneud digon! Oes gyda chi syniadau ar sut i fod yn ecogyfeillgar mewn ysgolion uwchradd?

Diolch am ddarllen fy e-bost a hoffwn i glywed gennych chi'n fuan.

Yn gywir

*G Williams*

(Mrs) G Williams A. C

© WJEC CBAC Cyf.

(i) Mae'r e-bost yn sôn am wahanol ffyrdd i helpu'r amgylchedd. Ticiwch y 3 bocs cywir. [3]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|  |  |  |  |  |
| | ✓ | ✓ | | ✓ |

(ii) Yn ôl eich Aelod o'r Senedd:
*According to your Member of the Senedd:*

(a) Pwy sy'n taflu sbwriel ar y strydoedd?

Pobl ifanc/ Gangiau [1]

(b) Beth allwch chi ailgylchu yn y tŷ?

1 marc yr un (Uchafswm o 2)
Papur/ plastig/ tuniau/ cardfwrdd/ gwydr

(c) Sut mae insiwleddio'r tŷ yn helpu'r amgylchedd?

Arbed / safio egni [1]

(ch) Faint o arian mae'r cyngor wedi ei wario ar wella cyfleusterau sbwriel ac ailgylchu?

Hanner miliwn (o bunnoedd)/ ½ miliwn (o bunnoedd)/ £500,000 [1]

(d) Beth ydy enw'r project ecogyfeillgar mewn ysgolion cynradd?

Eco'Sgolion [1]

(dd) Sut mae'r project yn helpu disgyblion i fod yn fwy ecogyfeillgar?

1 marc yr un (Uchafswm o 2)
Arbed/safio egni/ arbed/safio dŵr/ cael cawod (yn lle bath)/ diffodd golau/troi golau i ffwrdd (wrth adael ystafell)/ troi y tap dŵr <u>**i ffwrdd**</u> (wrth frwsio dannedd)/ sut i ailgylchu/ ailddefnyddio pethau bob dydd/ ailgylchu/ ailddefnyddio/ insiwleiddio

**B6.** Ysgrifennwch nodyn at eich Pennaeth yn awgrymu sut gallwch chi wneud eich ysgol yn fwy ecogyfeillgar.
*Write a note to your Head Teacher suggesting ways you could make your school more eco-friendly*. [5 + ✓ = 5] = **[10]**

Rhaid i chi gynnwys:

- Eich barn ar ofalu am yr amgylchedd
- beth mae'r ysgol yn gwneud nawr
- awgrymiadau newydd
- manteision gofalu am yr amgylchedd

*You must include:*

- *your opinion on caring for the environment* [1]
- *what the school does currently* [1]
- *new suggestions* [2]
- *advantages of caring for the environment* [1]

**Cynnwys [5] (atebion enghreifftiol)**

✓ barn ar ofalu am yr amgylchedd – "Mae gofalu am yr amgylchedd yn bwysig i'r dyfodol". [1]
✓ beth mae'r ysgol yn ei wneud nawr – "Mae'r ysgol yn ailgylchu papur." [1]
✓ awgrymiadau newydd – "Dylen ni osod paneli solar ar do yr ysgol." (1 marc am bob brawddeg – uchafswm o 2)
✓ manteision gofalu am yr amgylchedd – "Rhaid i ni ofalu am yr amgylchedd i stopio cynhesu byd eang." [1]

**Mynegiant [5]**

| | |
|---|---|
| **5 Marc** | Disgrifiad diddorol yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu hyderus. |
| **4 Marc** | Disgrifiad da yn cynnwys o leiaf 3 cystrawen wahanol, mynegi barn effeithiol a rhesymu da. |
| **3 Marc** | Disgrifiad syml yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol, mynegi barn a rhesymu da. |
| **2 Farc** | Ymgais i greu paragraff yn cynnwys o leiaf 2 gystrawen wahanol ac ymdrech i fynegi barn. |
| **1 Marc** | Brawddegau sylfaenol, pytiog heb strwythur amlwg. |

** Nid oes modd gwobrwyo'r marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys.
** Os mai dim ond 1 gystrawen sydd, dim ond 1 marc gellir ei wobrwyo.

© WJEC CBAC Cyf.

**B7.** Darllenwch beth mae Seth yn dweud am yr amgylchedd. **[7]**
Read what Seth says about the environment.

| | |
|---|---|
| <br>**Seth** | Seth ydw i a rydw i'n poeni am yr amgylchedd.<br><br>Mae gofalu am yr amgylchedd yn bwysig iawn. Mae'n gas gen i bobl sy'n gwneud dim. Maen nhw'n ddiog iawn!<br><br>Rydw i'n drist iawn pan rydw i'n gwylio rhaglenni teledu a gweld anifeiliaid yn y môr yn dioddef achos y plastig neu wrth weld anifeiliaid tenau iawn fel yr arth wen yn llwgu achos cynhesu byd eang.<br><br>Bydda i'n ailgylchu bron popeth. Dydw i ddim yn prynu poteli diod plastig, mae gyda fi fflasg blastig sy'n mynd gyda fi i bobman.<br><br>Does dim ots gyda fi am dalu am fag plastig bob tro rydw i'n siopa. Rydw i'n anghofio mynd â bagiau gyda fi i siopa weithiau. Pa ddrwg all un neu ddau o fagiau plastig ei wneud? |

(i) Cwblhewch y tabl isod – atebwch y cwestiynau mewn brawddegau llawn.
*Complete the table below – answer the questions in full sentences.* [4]

| | |
|---|---|
| Sut mae Seth yn helpu'r amgylchedd? | (Dau farc am un ateb cywir)<br>Ailgylchu (bron popeth)/ ddim yn prynu poteli diod plastig/ defnyddio fflasg blastig/ mynd â fflasg blastig i bobman **[2]** |
| Beth sydd angen i Seth ei wneud i fod yn fwy ecogyfeillgar? | (Dau farc am un ateb cywir)<br>Defnyddio bag am oes/ ailddefnyddio bagiau plastig/ mynd â bagiau plastig i siopa / **dim** talu am fag plastig bob tro / dim prynu llawer o blastig / prynu bag papur neu ailgylchadwy/mynd â bag i siopa **[2]** |

(ii) **Ydych chi'n debyg i Seth?** [3]

Ydw/ Nacydw/ Na/ Yn bendant/ Dw i'n debyg/ Dw i ddim yn debyg / wrth gwrs /heb os nac oni bai / ddim o gwbl / **[1]**

**Sut?**

(2 farc am gymharu nhw eu hunain efo Seth)
Atebion enghreifftiol
Fel Seth, bydda i'n ailgylchu
Yn wahanol i Seth rydw i'n defnyddio bag am oes
Poeni am yr amgylchedd
Ddim yn hoffi pobl sy'n gwneud dim i helpu'r amgylchedd
Ddim yn hoffi gweld anifeiliaid yn dioddef
Ailgylchu (bron popeth)
Defnyddio fflasg blastig yn lle poteli plastig/potel blastig am oes
Ddim yn poeni am brynu bagiau plastig bob tro mae'n siopa
Anghofio mynd â bagiau plastig i'r siopau

** Nid oes angen ateb mewn brawddegau llawn yn rhan (i) a (ii) achos bod dim marciau mynegiant ar gael yma.

© WJEC CBAC Cyf.

**Adran C**

**C8.** Ysgrifennwch **yn Gymraeg** ar **un** o'r canlynol (tua 150 o eiriau). [12 + ✓ = 13] = **[25]**
*Write **in Welsh** on **one** of the following (about 150 words).*

**Naill ai**
*Either*

Mae eich ysgol yn dewis Prif Fachgen/Ferch. Ysgrifennwch gyflwyniad i gefnogi eich cais.
*Your school is choosing a Head Boy/Girl. Write a presentation to support your application.*

Rhaid i chi gynnwys:

- **Manylion personol (gwobrwyo hyd at 2 farc)**
- **Diddordebau a sgiliau (gan gynnwys ble?/gyda pwy?/pryd? ayyb) (gwobrwyo uchafswm o 4 marc)**
- **Sut fasech chi'n helpu'r ysgol (gwobrwyo hyd at 2 farc)**
- **Rhesymau dros ymgeisio (gwobrwyo hyd at 2 farc)**
- **Unrhyw 2 bwynt perthnasol arall - ddim yn gallu gwobrwyo unrhywbeth am ddiddordebau na sgiliau**
- **Gellir gwobrwyo cyfeiriad at eu cais i fod yn brif fachgen/merch (gwobrwyo hyd at 2 farc)**
- ***1 marc = 1 ffaith**

*You must include:*

- *Personal details*
- *Interests*
- *Skills*
- *How would you help the school*
- *Reasons for applying*

**Neu**
*Or*

Ysgrifennwch ddyddiadur yn trafod trip ysgol arbennig.
*Write a diary discussing a special school trip.*

Rhaid i chi gynnwys:

- **Ble aethoch chi – ni ellir gwobrwyo cyfeiriad at iaith yn lle gwlad e.e 'Cymraeg', 'Sbaeneg', 'Ffrangeg' (gwobrwyo 1 marc)**
- **Math o drip (gwobrwyo 1 marc)**
- **Gweithgareddau – sy'n cyfateb â'r math o drip (gan gynnwys ble?/gyda pwy?/pryd?/barn ayyb) (gwobrwyo uchafswm o 5 marc)**
- **Sut mae'r trip yn helpu efo gwaith ysgol (gwobrwyo hyd at 2 farc)**

*You must include:*

- *Where you went*
- *Type of trip*
- *Activities*
- *How the trip helps with school work*
- *Would you go on the trip again?*

© WJEC CBAC Cyf.

- **Fasech chi'n mynd ar y trip eto? (gwobrwyo 1 marc)**
- **Unrhyw 2 bwynt perthnasol arall – ddim yn gallu gwobrwyo am weithgareddau. Gellir gwobrwyo cyfeiriad at y tywydd (gwobrwyo hyd at 2 farc)**
- **Ni ellir gwobrwyo "Nofiais i" neu "Chwaraeais i" ar eu pen eu hunain – rhaid cael brawddeg.**
- *** 1 marc = 1 ffaith**

**Mynegiant** **[13]**

| | |
|---|---|
| **Band 4<br>10-13 Marc** | • Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb.<br>• Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir.<br>• Sillafu ac atalnodi cywir. |
| **Band 3<br>7-9 Marc** | • Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb.<br>• Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan.<br>• Sillafu ac atalnodi eithaf cywir |
| **Band 2<br>4-6 Marc** | • Cyfathrebu'n eithaf rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan.<br>• Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir.<br>• Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir. |
| **Band 1<br>1-3 Marc** | • Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig.<br>• Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol.<br>• Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb.<br>• Peth ymdrech i sillafu ac atalnodi. |

** Nid oes modd gwobrwyo'r marc mynegiant yn uwch na'r marc cynnwys.



© WJEC CBAC Cyf.